# Gwobrau Dewi Sant 2026

**Gwobrau Cenedlaethol Cymru**

## Ffurflen enwebu

Cwblhewch bob rhan.
Gall enwebiad anorffenedig olygu na chaiff eich cais ei dderbyn.
Darllenwch y Canllawiau Enwebu i wybod mwy.

GWOBRAU DEWI SANT
ST DAVID AWARDS

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Enwebai – Y person neu'r grŵp yr ydych yn enwebu:

.............................................................................................................................................

## Categori

Ticiwch **un** categori yn unig. Bydd rhaid cwblhau ffurflen wahanol os ydych chi'n dymuno enwebu'r un enwebai am gategorïau gwahanol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Dewrder | ☐ | 6 | Arloesedd, Gwyddoniaeth a Thechnoleg | ☐ |
| 2 | Busnes | ☐ | 7 | Gwasanaethu'r Cyhoedd | ☐ |
| 3 | Arwr Cymunedol | ☐ | 8 | Chwaraeon | ☐ |
| 4 | Diwylliant | ☐ | 9 | Gwirfoddoli | ☐ |
| 5 | Ceidwad yr Amgylchedd | ☐ | 10 | Person Ifanc | ☐ |

## Eich enwebiad

Esboniwch sut mae eich enwebai wedi gwneud cyfraniad sylweddol yn y categori.

Rhowch cymaint o fanylion ac sy'n bosibl. Cewch weld enghraifft o enwebiad da yn y Canllawiau Enwebu.

1. Disgrifiwch y person neu'r grŵp yr ydych yn ei enwebu. (Dim mwy na 100 gair)
   *E.e. Pwy ydyn nhw? O ble maent yn dod? Beth yw eu cymeriad a / neu natur eu gwaith o ddydd i ddydd?*

2. Pam ydych yn eu henwebu? Esboniwch pam eu bod yn haeddu Gwobr Dewi Sant? (Dim mwy na 700 gair)
*E.e. Pa mor eithriadol oedd eu hymddygiad? Beth yw canlyniad eu gweithredoedd?*

## Dolenni cefndirol *(dewisol)*

Rhowch ddolenni gwefan i esiamplau o waith neu weithredoedd eich enwebai fan hyn. Gall y rhain gynnwys erthyglau newyddion, gwefannau cwmni, albwm lluniau ar-lein, tudalennau codi arian, fideos neu dudalennau cyfryngau cymdeithasol.

## Manylion cyswllt yr enwebai

Rhowch yr holl fanylion yr ydych yn ymwybodol ohonynt. Os ydych yn enwebu grŵp, rhowch enw'r arweinydd / cadeirydd / trefnydd / rheolwr / perchennog ayyb.

Teitl ................ Enw cyntaf ........................................................................................................

Cyfenw ........................................................................................................................

Gwryw ☐ Benyw ☐ Anneuaidd ☐

Cyfeiriad ........................................................................................................................

........................................................................................ Cod post ................................

Rhif ffôn cyswllt ........................................................................................................

Eu hoedran:

O dan 19 ☐ 19-24 ☐ 25-34 ☐ 35-49 ☐ 50-64 ☐ 65 + ☐

E-bost ........................................................................................................................

## Enwebwr – Eich manylion

Rhowch cymaint o fanylion ag sy'n bosibl rhag ofn y byddwn eisiau cysylltu â chi.

Teitl ................ Enw cyntaf ........................................................................................................

Cyfenw ........................................................................................................................

Gwryw ☐ Benyw ☐ Anneuaidd ☐

Cyfeiriad ........................................................................................................................

........................................................................................ Cod post ................................

Rhif ffôn cyswllt ........................................................................................................

Eich oedran:

O dan 18 ☐ 18-24 ☐ 25-34 ☐ 35-49 ☐ 50-64 ☐ 65 + ☐

E-bost ........................................................................................................................

Ticiwch yma os ydych yn dymuno cael cadarnhad i ni dderbyn eich enwebiad. ☐

Ydy eich enwebai yn:

Aelod o’r teulu ☐ Cydweithiwr ☐ Ffrind ☐ Enwebu’n hunain ☐ Arall ☐

Os “Arall” rhowch fanylion

....................................................................................................................................................

Ble clywsoch am y gwobrau? Ticiwch cymaint ag sy’n berthnasol:

- ☐ Ffrind / Teulu
- ☐ E lythyr / cydweithiwr / gwaith
- ☐ Teledu
- ☐ Papur Newydd / gwefan newyddion
- ☐ Teledu
- ☐ Radio
- ☐ Twitter
- ☐ Facebook
- ☐ Instagram
- ☐ Arall

Rhowch fanylion

....................................................................................................................................................

## Dyddiad cau

Y dyddiad cau i yrru’r ffurflen enwebu hon ydy:

**Hanner nos, dydd Gwener 24 Hydref 2025**

# Canllawiau Enwebu

## Categorïau

Mae 11 Gwobr Dewi Sant, a'r cyhoedd sy'n enwebu am 10 ohonynt. Mae'n bwysig dewis y categori mwyaf addas ar gyfer y person neu grŵp rydym am ei enwebu – bydd y diffiniadau isod yn eich helpu i benderfynu.

---

### Dewrder

Dyma wobr i'r rheini sydd wedi ymddwyn yn eithriadol o ddewr neu sydd wedi dangos dewrder neilltuol yn eu cymeriad trwy wneud y peth iawn mewn sefyllfa anodd. Gallai olygu bod yn ddi-ofn neu'n gorfforol ddewr, a gweithredu heb feddwl am niwed posibl i'w hunain.

---

### Busnes

Dyma wobr i'r rheini sydd, drwy eu hymdrechion, wedi cael llwyddiant ysgubol mewn busnes. Gallai hyn gynnwys creu swyddi go iawn iddyn nhw eu hunain ac i eraill.

---

### Arwr Cymunedol

Gwobr ar gyfer pobl yng Nghymru sydd wedi neu'n parhau i hyrwyddo mentrau sy'n gwella bywydau pobl yn eu cymuned leol neu gymunedau ledled Cymru.

---

### Diwylliant

Dyma wobr i unigolyn o neu yng Nghymru sydd wedi rhagori yn y celfyddydau a ffurfiau diwylliannol eraill, mewn unrhyw gelfyddyd, iaith neu gyfrwng. Gallai gynnwys, ymhlith eraill, y rheini sydd wedi llwyddo i roi Cymru ar lwyfan y byd.

---

### Ceidwad yr Amgylchedd

Dyfernir y wobr i berson neu grŵp sydd wedi gwneud cyfraniad arbennig i wella yr amgylchedd, un ai yn lleol, ar draws Cymru neu yn rhyngwladol.

## Arloesedd, Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Dyma wobr ar gyfer pobl sydd wedi datblygu technegau neu atebion sy'n bodloni gofynion newydd ac sydd wedi darparu cynnyrch, prosesau, gwasanaethau, technolegau neu syniadau effeithiol sydd ar gael i bawb mewn cymdeithas.

---

## Gwasanaethu'r Cyhoedd

Gwobr ar gyfer unigolyn neu dîm sy'n gweithio yn y rheng flaen o fewn GIG Cymru neu'r sector Addysg, gan roi gwasanaeth eithriadol i bobl Cymru.

Dylai enwebiadau ar gyfer y wobr hon ddod gan aelodau o'r cyhoedd sydd â phrofiad uniongyrchol o'r gwasanaeth a ddarperir gan eu henwebai.

---

## Chwaraeon

Dyma wobr ar gyfer tîm neu grŵp yng Nghymru sydd wedi llwyddo i ragori neu helpu i ragori yn y campau ar lefel genedlaethol neu ryngwladol.

---

## Gwirfoddoli

Gwobr ar gyfer pobl yng Nghymru sydd wedi rhoi neu'n parhau i roi eu hamser yn ddi-dâl i gefnogi prosiectau ar lawr gwlad, sefydliadau lleol neu elusennau cenedlaethol Cymru. Gan gynnwys y rhai sy'n helpu i godi ymwybyddiaeth a chodi arian er budd lleol ac ehangach.

---

## Person Ifanc

Rhoddir y wobr hon i berson neu grŵp ifanc eithriadol hyd at 19 oed sy'n ysbrydoli mewn unrhyw faes yng Nghymru.

---

## Gwobr Arbennig:

Dewis personol gan y Prif Weinidog yw'r wobr hon – ni ellir enwebu rhywun yn uniongyrchol ar ei chyfer. Gallai wobrwyo gorchest grŵp neu unigolyn. Gallai'r enillydd gael ei ddewis o blith enillwyr y gwobrau eraill neu ei ddewis yn annibynnol arnyn nhw.

Mae'r teilyngwyr a'r enillwyr yn cael eu dewis gan Brif Weinidog Cymru a'i gynghorwyr.

# Pwy gewch chi enwebu

## Pwy gewch chi enwebu?

1. Does dim rhaid i'r enwebeion fod yn ddinasyddion Prydeinig na byw yng Nghymru, ond bydd ganddynt gysylltiad ystyrlon â Chymru.
2. Cewch enwebu ffrindiau, aelodau o'ch teulu, cydweithwyr neu hyd yn oed ffigwr cyhoeddus.
3. Rhaid i'r sawl sy'n cael ei enwebu fod yn o leiaf 16 oed. Ond, ar gyfer Gwobr y Person Ifanc, cewch enwebu pobl o unrhyw oedran hyd at, a chan gynnwys, 19 oed.
4. Mae grwpiau o bobl, timau neu gwmnïau'n gallu cael enwebiad, yn ogystal ag unigolion (dylid nodi enw cynrychiolydd y grŵp ar y ffurflen).
5. Mae croeso ichi ailenwebu rhywun os cafodd ragor o lwyddiant ers ei enwebu'r tro cynt.
6. Ni roddir gwobrau i rywun ar ôl ei farwolaeth.

## Pwy sy'n gallu enwebu?

1. Gall unrhyw un enwebu.
2. Mae hunanenwebiadau hefyd yn cael eu derbyn.
3. Ni fyddwn yn datgelu enw'r person sy'n enwebu, oni bai ei fod yn dymuno hynny (ar ôl i'w enwebai ennill Gwobr).

# Sut i enwebu

Y ffordd hawsaf i enwebu yw trwy ein ffurflen ar-lein yn adran 'Enwebwch nawr' ein gwefan. Gallwch arbed y ffurflen, dod nôl ati, a'i chyflwyno unwaith y byddwch chi'n hapus. Cewch e-bost diolch awtomatig ar ôl i chi gwblhau'r ffurflen.

Neu, gallwch lawrlwytho fersiwn pdf o'r ffurflen (y ffurflen hon) a'i hanfon yn ôl atom trwy e-bost neu bost:

E-bost: gwobraudewisant@llyw.cymru

Post: Gwobrau Dewi Sant 2026, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

# Sut i anfon llythyr o gefnogaeth

Ar ôl i chi gyflwyno'ch enwebiad, gallwch hefyd gyflwyno llythyrau cefnogi gan bobl neu sefydliadau sy'n gyfarwydd â'u cyflawniadau, er nad yw hyn yn hanfodol.

Lawrlwythwch dempled o adran 'Am y gwobrau' ein gwefan os oes angen awgrymiadau arnoch ar ba fath o wybodaeth i'w gynnwys.

Bydd rhaid i bob llythyr gynnwys enw'r categori gwobrwyo ac enw'ch enwebai a dylid ei anfon i gwobraudewisant@llyw.cymru neu bostio i Gwobrau Dewi Sant 2026, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Bydd rhaid i lythyrau o gefnogaeth ein cyrraedd erbyn y dyddiad cau – Hanner nos, Dydd Gwener 24 Hydref 2025.

## Cynghorion am enwebu

1. Hyd yn oed os ydych yn enwebu rhywun adnabyddus, rhaid disgrifio'r hyn y mae wedi'i gyflawni. Disgrifiwch ei gymeriad a'i weithredoedd wrth y Pwyllgor Ymgynghori a pheidiwch â rhagdybio bod pawb yn gwybod amdano neu amdani a'i llwyddiannau.
2. Rhowch enghreifftiau da ac esboniwch sut y bu i'ch enwebai lwyddo. Ni fydd dweud "Mae Dafydd Dafis wedi codi llawer o arian at achosion da" yn ddigon. Byddai "Trefnodd Dafydd Dafis râs 5km noddedig yn y pentref a chael cefnogaeth noddwyr lleol adnabyddus i godi £5,000 at achosion da" yn well.
3. Rhowch gymaint o ffeithiau ag yr ydych yn eu gwybod neu y gallwch gael hyd iddyn nhw ar-lein. Mae croeso ichi ddefnyddio pwyntiau bwled yn lle brawddegau llawn i gadw o dan y terfyn geiriau.

## Dyddiadau allweddol

| 24 HYDREF '25 | IG | IG |
|---|---|---|
| **ENWEBIADAU'N CAU AM HANNER NOS** | **CYHOEDDI'R TEILYNGWYR** | **SEREMONI GWOBRAU DEWI SANT** |

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG50562
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg